

# **Adroddiad ar yr Adolygiad o System Diogelu Iechyd Cymru**

David Heymann

Sara Hayes

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	3
<b>Dulliau</b> .....	4
<b>Casgliadau ac argymhellion cyffredinol</b> .....	5
<b>Dyluniad Systemau</b> .....	9
<b>Crynodeb o'r Canfyddiadau</b> .....	9
<b>Argymhellion manwl</b> .....	13
<b>Llywodraethu ac atebolrwydd</b> .....	13
<b>Crynodeb o'r Canfyddiadau</b> .....	13
<b>Argymhellion manwl</b> .....	16
<b>Y gweithlu</b> .....	18
<b>Crynodeb o'r Canfyddiadau</b> .....	18
<b>Argymhellion manwl</b> .....	22
<b>Arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfathrebu</b> .....	24
<b>Crynodeb o'r Canfyddiadau</b> .....	24
<b>Argymhellion manwl</b> .....	26
<b>Deallusrwydd</b> .....	28
<b>Crynodeb o'r Canfyddiadau</b> .....	28
<b>Argymhellion manwl</b> .....	31
<b>Sganio'r gorwel a rhagweld</b> .....	33
<b>Crynodeb o'r Canfyddiadau</b> .....	33
<b>Argymhellion manwl</b> .....	33
<b>Atodiad 1 - Holiadur gwag a anfonwyd at yr holl bartneriaid a rhestr o ymatebwyr</b> .....	35
<b>Atodiad 2 – Rhestr o'r cyfweiliadau</b> .....	37
<b>Atodiad 3 – Papurau a dogfennau ysgrifenedig</b> .....	39
<b>Atodiad 4 – Bywgraffiadau'r tîm adolygu</b> .....	41

## Cyflwyniad

1. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o System Diogelu Iechyd Cymru (y System) yn ystod mis Hydref 2022 er mwyn asesu ei chryfderau yn erbyn meincnod sydd eisoes wedi'i sefydlu o system diogelu iechyd sy'n perfformio'n dda, ac i roi argymhellion rhesymol y gellir eu gweithredu ar y ffyrdd y gellid cryfhau ymhellach y system diogelu iechyd yng Nghymru i fodloni'r meincnod sefydledig, neu ragori arno.
2. Bu'n rhaid i'r system yng Nghymru addasu'n gyflym i bandemig Covid-19. Gwnaed newidiadau i arferion gwaith, ac mae llawer ohonynt wedi cael eu cadw, neu y byddai modd eu cadw, i reoli digwyddiadau, achosion ac argyfyngau yn y dyfodol. Gellid rhoi ystyriaeth hefyd i barhau â'r arferion hynny a allai gryfhau'r gwaith o reoli ac atal clefydau heintus endemig arferol a/neu liniaru peryglon amgylcheddol. Mae'n hanfodol bod yr holl asiantaethau sy'n rhan o'r broses yn dysgu o'r ffordd y bu'r system yn gweithredu yn ystod y pandemig ac yn y cyfnod adfer hirfaith fel y gellir manteisio ar gyfleoedd i ddeall a chryfhau'r trefniadau newydd, a chyfrannu at fanteision iechyd tecach ledled y genedl.
3. Nid yw'r adolygiad hwn wedi mynd i'r afael â threfniadau ac ymatebion diogelu iechyd yn y maes gofal sylfaenol neu sy'n gysylltiedig â'r maes hwnnw, na threfniadau atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau gofal iechyd, er bod gan y rhain ran sylweddol mewn unrhyw system integredig ar gyfer diogelu iechyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod angen i system diogelu iechyd o safon aur fod yn ddigon gwydn i reoli busnes fel arfer bob amser ac yn enwedig yn ystod argyfyngau, er mwyn gwella tegwch iechyd y boblogaeth o hyd, a bod yn barod i reoli bygythiadau ac argyfyngau diogelu iechyd ac ymateb iddynt pan fyddant yn codi.
4. Er mwyn cyflawni hyn yn llawn, nid oes angen lefel y cyllid sy'n cael ei ddarparu ar gyfer yr ymateb i Covid, ond fel yn yr argymhellion isod, mae angen cynnal capasiti craidd er mwyn sicrhau ein bod yn barod yn genedlaethol ac yn lleol i reoli bygythiadau a risgiau'r dyfodol, yn enwedig yn syth ar ôl argyfwng. Bydd hyn yn gofyn adnoddau dynol, systemau estynedig a gwrthfesuau cryfach.
5. Mae'r tîm adolygu'n ddiolchgar am y gonestrwydd a'r brwdfrydedd a ddangoswyd gan yr holl ymatebwyr ac am y gefnogaeth a roddwyd gan y tîm yn Llywodraeth Cymru a fu'n gymorth wrth drefnu'r adolygiad hwn.

## Dulliau

6. Holiaduron (ynghlwm â rhestr o'r rhai sydd wedi'u cwblhau), cyfweiliadau gyda phersonau allweddol (rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld ynghlwm), dogfennau perthnasol ychwanegol (ynghlwm); a chafodd cofnodion manwl o'r cyfweiliadau a wnaed gan y tîm cymorth eu hadolygu ar gyfer yr asesiad.
7. Er y gofynnwyd am dystiolaeth o brofiadau a dysgu yn ystod y pandemig Covid, aseswyd y System ar gyfer pob perygl, gan gynnwys y defnydd maleisus o ddeunyddiau neu arfau cemegol, biolegol, radiolegol neu niwclear (CBRN) gyda'r bwriad o achosi niwed.
8. Aseswyd y meysydd diddordeb canlynol: dyluniad systemau; llywodraethu ac atebolrwydd; y gweithlu; arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfathrebu; deallusrwydd; sganio'r gorwel a rhagweld.
9. Mae canfyddiadau'r adolygiad wedi'u crynhoi yn y tablau yn y ddogfen hon, ac maent wedi arwain at yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn ar gyfer bod yn barod ar gyfer argyfwng a rheolaeth arferol. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan dîm adolygu Llywodraeth Cymru yn HPAG - Secretariat / Ysgrifenyddiaeth HPAG.Secretariat@gov.wales.
10. Datblygwyd y weledigaeth ganlynol sy'n sail i'r asesiad o'r arferion gorau a amlinellwyd yn y Fframwaith ar gyfer Creu a Datblygu Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol gan Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (frameworkforphi.pdf (ianphi.org):
11. Mae System Diogelu Iechyd Cymru yn bodloni safonau arferion gorau rhyngwladol drwy ddarparu:
  - canllawiau gwleidyddol a thechnegol amserol ar gyfer rheolaeth arferol a thecach o glefydau heintus, yn ogystal â chanllawiau cyflym yn ystod digwyddiadau ac argyfyngau pob perygl;
  - gwybodaeth reolaidd a chyfredol am risgiau a pheryglon, a risgiau posibl yn y dyfodol; a
  - chamau effeithiol a chynaliadwy yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn atal, lliniaru, rheoli a chyfathrebu risgiau sy'n bygwth iechyd y cyhoedd a sefydlogrwydd economaidd Cymru.
12. Gwnaed argymhellion lle nodwyd bylchau a lle gellid gwneud gwelliannau.
13. Yn ogystal, fe wnaeth y tîm adolygu nodi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod egwyddorion ar gyfer datblygu gwasanaethau sy'n cyd-fynd â diogelu iechyd:
  - edrych ar y tymor hir er mwyn peidio â chyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain
  - mabwysiadu dull integredig
  - cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
  - gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy cytûn
  - gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

## Casgliadau ac argymhellion cyffredinol

14. Cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei hymateb Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) gan ddefnyddio strwythurau lleol a oedd yn bodoli'n barod ei groesawu gan y gwasanaeth, ac ystyriwyd mai dyma'r opsiwn mwyaf priodol, gan gynnig gwybodaeth leol a hyblygrwydd.
15. Datblygwyd atebion ymarferol i gyfathrebu a dadansoddi gwybodaeth epidemiolegol i Lywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio data lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
16. Gyda'r holl arloesi a welwyd yn ystod y pandemig, a chyfranogiad cynyddol Byrddau Iechyd yn iechyd y cyhoedd drwy'r timau iechyd cyhoeddus lleol newydd sbon, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod angen adolygiad o rolau a chyfrifoldebau sefydliadol ac unigol er mwyn sicrhau bod gan bobl ddealltwriaeth dda o'r system diogelu iechyd, rhwydwaith o sefydliadau, a bod y system yn barod ar gyfer yr argyfwng neu'r achosion nesaf.
17. Mae angen i bartneriaid diogelu iechyd gydgyhyrchu fframwaith sy'n dangos sut maent yn ymwneud â'i gilydd, gan ystyried yr angen am eglurder ynghylch arweinyddiaeth, cydweithio a chyfathrebu, yng nghamau cynnar bygythiadau sy'n dod i'r amlwg ac wrth i ddigwyddiadau fynd rhagddynt.

### Dyluniad Systemau

18. Cafodd y staff hyfforddedig a oedd ar gael ar gyfer gweithgareddau diogelu iechyd eu llethu gan wir faint yr ymateb a oedd ei angen ar gyfer Covid ond llwyddodd gwasanaethau lleol i ymgynnull nifer fawr o staff anarbenigol i gyflwyno TTP yn effeithiol, gyda buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Roedd y gweithlu ar bob lefel, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, yn wynebu llawer o bwysau i barhau i gyflawni. Effeithiodd y mesurau rheoli Covid ar y gallu i gyflawni swyddogaethau rheolaidd yn y maes iechyd ac iechyd yr amgylchedd yn ogystal â'r ffaith bod staff wedi'u dadleoli.
19. Mae angen i'r system adfer, gan adeiladu ar yr integreiddio gwell a'r cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws disgyblaethau a gyflawnwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn sicrhau gwasanaeth iechyd y cyhoedd arferol cryfach, tecach a mwy cynaliadwy yn ogystal â pharodrwydd am argyfwng ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol, boed yn sgil clefyd heintus, digwyddiadau amgylcheddol sy'n digwydd yn naturiol neu ymosodiadau cemegol, biolegol, ymbelydredd neu niwclear bwriadol.

### Argymhelliad

20. Cynnal capasiti ymateb iechyd y cyhoeddus integredig cynaliadwy ar raddfa fawr fel y gwelwyd yn ystod Covid drwy wneud y canlynol:
  - sicrhau bod ôl-groniadau mewn gwasanaethau iechyd a gwasanaethau diogelu'r cyhoedd yn cael eu clirio ac yn parhau ar lefelau y gellid ymdopi â nhw, ac nad ydynt yn arwain at ddirywiad yn iechyd a lles y cyhoedd, gan sicrhau pobl iachach sy'n llai agored i glefydau heintus a bygythiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chlefydau heintus.

- parhau i ddod â'r system ehangach, y lleol, y rhanbarthol a'r cenedlaethol, ynghyd mewn gweithgareddau rheoli clefydau arferol, ac wrth ymarfer a hyfforddi ar gyfer argyfyngau er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio fel un ac nad yw'n mynd yn dameidiog.
- sicrhau bod timau lechyd y Cyhoedd byrddau iechyd a thimau lechyd yr Amgylchedd llywodraeth leol yn parhau i gael eu cryfhau drwy egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau craidd, gan gynnwys gwyddor ymddygiad, cyfathrebu risg ac atal a rheoli heintiau.

#### Llywodraethu ac atebolrwydd

21. Rhoddwyd trefniadau newydd ar waith i ymateb i heriau penodol Covid. Yn ystod Covid, gwelwyd pa mor bwysig oedd cael pob sefydliad i gydweithio ac mae angen diogelu hyn ar gyfer parodrwydd am argyfwng ar gyfer pob perygl, ac ar gyfer diogelu iechyd pobl yn wyneb clefydau heintus endemig a chlefydau a risgiau anhrosglwyddadwy.
22. Mae amrywiaeth o gynlluniau sefydliad cyfan a chynlluniau cydweithredu ar gyfer ymdrin ag argyfyngau, digwyddiadau ac achosion; ac ar gyfer ymdrin â chlefydau heintus endemig, ond nid yw'n glir i ba raddau y mae'r cynlluniau hyn wedi'u hintegreiddio, p'un ai a ydynt yn ategu ei gilydd a pha mor dda y maent yn cefnogi cydweithredu yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

#### Argymhelliaid

- Mae angen mynd ati ar y cyd i adolygu'r holl gynlluniau diogelu iechyd a chynlluniau argyfyngau sifil posibl, yn ogystal â'r rhai ar gyfer rheoli clefydau endemig, nawr ac yn y dyfodol, yn dilyn cylch cynllunio, hyfforddi, addysgu, ymarfer, adolygu, cynllunio, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datblygu'n llawn, eu bod yn cyd-fynd â chynlluniau cyd-ddibynnol eraill, gan gynnwys cynlluniau lleol a chenedlaethol ar gyfer argyfyngau sifil posibl, a'u bod yn cynnwys llinellau cyfathrebu a chymorth clir.
- Dylid profi cynlluniau drwy ymarferion a gweithdai amlasiantaethol, gyda staff o bob lefel o'r sefydliadau'n cymryd rhan. Lle y bo hynny'n ymarferol, dylai sefydliadau gwirfoddol fod yn rhan o'r prosesau datblygiadol hyn.
- Dylid datblygu fframweithiau atebolrwydd fel y gellir, ar gyfer unrhyw ddata poblogaeth, monitro anghydraddoldebau fel mater o drefn a chynllunio gweithredoedd i fynd i'r afael â nhw.

#### Y gweithlu

23. Mae digwyddiadau cenedlaethol, argyfyngau, a'r gwaith o reoli clefydau endemig yn dibynnu ar ymatebion lleol gwydn, yn enwedig y rhai sy'n gofyn am ymddiriedaeth, ac ni ellir eu darparu o adnodd canolog yn unig. Mae gwasanaethau lleol yn gofyn am arbenigwyr hyfforddedig, gweithwyr cymorth ac epidemiolegwyr maes sy'n adnabod yr ardal leol ac sydd â'r sgiliau neu sydd wedi'u hyfforddi i gyflawni eu rolau ac sy'n gallu uniaethu'n effeithiol â'r cyhoedd. Gwelwyd bod cyflwyno TTP yn lleol yn gweithio'n dda.
24. Cafodd aelodau staff y gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol, y cafodd eu rolau cyn y pandemig eu hatal yn rhannol neu'n gyfan gwbl, eu hadleoli er mwyn

ymateb i Covid. Cawsant hwy ac aelodau'r cyhoedd eu recriwtio i'r gwasanaeth TTP. Er bod staff yn dychwelyd i'w rolau parhaol yn y GIG a llywodraeth leol, gan gynnwys mewn gwasanaethau amgylcheddol gan gynnwys diogelwch bwyd, ac ar gyfer clefydau heintus ac anhrosglwyddadwy endemig, maent yn wynebu heriau gan fod y gwasanaethau hyn yn dal i adfer.

25. Croesawodd y System y buddsoddiad newydd mewn epidemiolegwyr arbenigol ac Ymgynghorwyr Clefydau Trosglwyddadwy/Ymgynghorwyr Diogelu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a dylai hynny gryfhau'r system diogelu iechyd genedlaethol, rhanbarthol a lleol pan fydd swyddi wedi'u llenwi. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod angen cadw a chryfhau arbenigedd iechyd yr amgylchedd yn lleol, o ystyried yr ystod gynyddol o bryderon amgylcheddol.

### *Argymhelliaid*

- Mae angen cadw gwydnwch lleol ar gyfer diogelu iechyd yn wyneb pob perygl ar ôl adfer o'r pandemig Covid. Er mwyn i dîm lleol ar gyfer rheoli clefydau neu ymateb iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddo gael cefnogaeth gan arbenigwyr diogelu iechyd, labordai iechyd cyhoeddus ac epidemiolegwyr maes. Gellir cryfhau'r berthynas amlasiantaethol hon drwy hyfforddiant ar y cyd.
- Dylid cysylltu â'r sector gwirfoddol yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn archwilio pa gyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud wrth reoli clefydau endemig a digwyddiadau mawr yn y dyfodol.
- Cynnal rhestrau o wirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd a roddodd gymorth yn ystod y pandemig a phenderfynu a yw'n ymarferol eu cael i barhau i gyfrannu at weithgareddau yn wirfoddol.
- Dylid cychwyn trafodaethau gyda phrifysgolion a darparwyr addysg drydyddol eraill er mwyn archwilio mecanweithiau i annog myfyrwyr ar gyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd i gefnogi gwaith diogelu iechyd a chymryd rhan mewn ymarferion ac ymatebion ar gyfer pob perygl yn awr yn y dyfodol.

### *Arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfathrebu*

26. Roedd trafferthion cyfathrebu yn y cyfnod yn arwain at y don gynyddol o Covid yng ngwanwyn 2020, ond gwnaed trefniadau'n gyflym i wella hyn, gan arwain at ymateb mwy cydgysylltiedig. Roedd rhwydwaith diogelu iechyd amlasiantaethol gweithredol cyn y pandemig y gellid adeiladu arno er mwyn darparu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o'r sefyllfa ar gyfer pob rhan berthnasol o'r System. Nid yw'n glir sut a phryd i ymgysylltu â phartneriaid argyfyngau sifil posibl gan yr ymdrinnir â llawer o ddigwyddiadau yn gwbl leol, heb fod angen ymateb amlasiantaethol strategol wedi'i gydlynu.

### *Argymhelliaid*

- Ceisio adeiladu ar y cysylltiadau da presennol wrth agor rhai o'r mecanweithiau cyfathrebu arferol i bartneriaid argyfyngau sifil posibl.
- Sicrhau bod systemau cyfathrebu'n gallu gweithredu i bob cyfeiriad, nid un ffordd yn unig, er mwyn rhoi adborth a galluogi derbynwyr i ymgysylltu'n llawn.

### *Deallusrwydd*

27. Dyluniwyd systemau newydd i drin data ar gyfer gweithgareddau diogelu iechyd newydd. Fe wnaethant weithio'n dda yn ystod y cyfnod aciwt gan greu posibiladau i ddefnyddio mwy o systemau electronig/digidol wrth ddarparu gwasanaethau diogelu iechyd arferol. Datblygwyd trefn gweithio gartref yn llwyddiannus i lawer o weithwyr ac mae patrymau gweithio hybrid wedi dod yn dderbyniol. Cafwyd llawer o gynnydd mewn ymchwil genomeg a datblygwyd technegau modelu newydd. Roedd yna rwystrau wrth rannu data rhwng asiantaethau a rhwng Cymru a chenedloedd eraill y DU ond nid oedd y rhesymau am hyn yn glir bob amser.

#### *Argymhelliad*

- Adolygu'r holl systemau data sy'n gweithredu ar hyn o bryd ac archwilio sut y gallant weithredu yn ôl safonau cyffredin y cytunwyd arnynt a sut gellir eu cyfuno, o fewn cyfyngiadau mesurau diogelwch Diogelu Data, er mwyn cynorthwyo gyda'r broses o gasglu data a chynyddu eu gwerth mewn gwaith gwyliadwriaeth cenedlaethol a lleol.

#### Sganio'r gorwel a rhagweld

28. Yr allwedd ar gyfer bod yn barod am y perygl nesaf sydd ag effaith genedlaethol, beth bynnag fo natur y perygl hwnnw, a chael gweithgareddau rheoli tecach ar gyfer clefydau heintus endemig, yw bod ar eich gwyliadwriaeth i arwyddion cynnar achosion neu fethiannau mewn rheolaeth arferol, rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phawb priodol a sylweddoli y gallai'r ymateb fod yn wahanol iawn i unrhyw ddigwyddiad blaenorol. Roedd Covid angen dull gwahanol i'r fflw, roedd yn effeithio ar grwpiau oedran yn wahanol, ac roedd ffactorau trosglwyddo'n wahanol, felly roedd y mesurau rheoli yn wahanol.

#### *Argymhelliad*

- Parhau a chryfhau cysylltiadau'r pedair gwlad a chysylltiadau rhyngwladol a'r byd academiaidd, er mwyn gwella gwaith sganio'r gorwel, rhagweld digwyddiadau argyfwng a nodi anghenion ar gyfer gwella gwaith rheoli arferol.
- Ceisio sicrhau bod y boblogaeth mor iach â phosibl, ac felly mor wydn â phosibl, drwy fentrau iechyd a lles ac adfer gwasanaethau'r GIG a Diogelu'r Cyhoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan Covid.



## Dyluniad Systemau

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

<b>Egwyddorion system iechyd sy'n perfformio'n dda</b>	<b>System Cymru</b>
<p data-bbox="204 463 783 568">Gweledigaeth glir a datganiad cenhadaeth y mae staff yn eu deall a'u rhannu.</p> <p data-bbox="204 607 783 712">Mandadau system gyfan gyda dealltwriaeth glir a diamwys o gyfrifoldebau.</p>	<p data-bbox="810 463 1390 860">Disgrifir mandadau systemau diogelu iechyd mewn contractau comisiynu, Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, cynlluniau rheoli achosion, cynlluniau pandemig a chynlluniau digwyddiadau mawr. Disgrifir rolau partneriaid ond efallai eu bod wedi cael eu hymestyn a'u hegluro'n well yn sgil y pandemig Covid. Mae'n dibynnu ar lawer o sefydliadau yn cydweithio mewn gweithgareddau arferol ac wrth ymateb i ddigwyddiadau.</p> <p data-bbox="810 898 1390 1084">Nid oedd y cysylltiad rhwng argyfyngau sifil posibl a diogelu iechyd yn glir yn Llywodraeth Cymru i ddechrau ond mae mecanweithiau wedi'u rhoi ar waith ac mae'r ddealltwriaeth yn well erbyn hyn.</p> <p data-bbox="810 1122 1390 1308">Mae arweinyddiaeth leol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau yn parhau i fod yn anodd ei sicrhau mewn lleoliadau gofal iechyd ar lefel bwrdd iechyd, er gwaethaf ymdrechion diwyd i recriwtio arbenigwyr.</p> <p data-bbox="810 1346 1390 1599">Cafodd rôl iechyd yr Amgylchedd Diogelu'r Cyhoedd ei hehangu i gynnwys olrhain cysylltiadau ar gyfer feirysau anadlol a chymorth ehangach ar gyfer cartrefi gofal ond cyfrannodd hyn ymhellach at ôl-groniadau yn eu gweithgareddau arferol.</p> <p data-bbox="810 1637 1390 1890">Roedd brwdfrydedd i adeiladu ar ddull Cymru ar y Cyd/Unwaith i Gymru gydag ymarferion a hyfforddiant ond mae angen cynnwys staff generig, y gellir eu symud i rolau eraill, yn ogystal â staff diogelu iechyd, mewn ymarferion a hyfforddiant.</p> <p data-bbox="810 1928 1390 2103">Mae'r diffyg cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y meysydd cyfrifoldeb datganoledig wedi ehangu. Fe wnaeth y ffaith fod Lloegr wedi gweithredu'n wahanol mewn perthynas â</p>

	<p>rhai agweddau ar bolisi Covid arwain at ddryswch ymysg y cyhoedd a busnesau ar y ffin ynghylch y cyngor, y polisiau a'r canllawiau ar unrhyw adeg.</p> <p>Nid oedd y camau yr oedd eu hangen yn ystod cyfnod cynnar y pandemig yn glir. Byddai partneriaid argyfyngau sifil posibl wedi gwerthfawrogi cyfathrebu cynharach fel y gallent baratoi. Yng nghyfnod cynnar y pandemig, nid oedd cysylltiad sefydledig yn Llywodraeth Cymru rhwng y tîm diogelu iechyd ac arweinwyr polisi ar gyfer meysydd ehangach y llywodraeth fel addysg a busnes. Ers hynny mae cysylltiadau dibynadwy wedi datblygu.</p>
<p>Cynllunio strategol cyfnodol, gan ddefnyddio data a gwybodaeth i nodi blaenoriaethau a gosod nodau a thargedau mesuradwy i ddangos effaith.</p>	<p>Sefydliadau sy'n ymwneud â chynllunio at argyfyngau yn gweithio yn ôl egwyddorion cyffredin, Egwyddorion Rhyngweithredu'r Cydwasanaethau Brys (JESIP) a modelau penderfynu ar y cyd ar ymatebion ar y cyd i argyfwng.</p>
<p>Gwylidwriaeth barhaus sy'n gysylltiedig â gwasanaethau labordy iechyd cyhoeddus sy'n darparu ar gyfer casglu, dadansoddi a dehongli a gweithredu ar ganlyniadau/lledaenu canlyniadau yn systematig.</p> <p>Ymchwiliad epidemiolegol i achosion o glefydau a digwyddiadau iechyd y cyhoedd eraill a achosir gan bob perygl gan gynnwys CBRN.</p>	<p>Roedd grwpiau amlddisgyblaethol yn bodoli cyn y pandemig y gellid eu defnyddio'n awr i sicrhau bod arweinwyr argyfyngau sifil posibl yn cael eu hysbysu'n rheolaidd er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r heriau parhaus o ran diogelu iechyd. Gellir defnyddio canfyddiadau'r grwpiau hyn i lywio polisi.</p> <p>Mae'r grwpiau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paneli arbenigol Diogelu'r Cyhoedd Cymru (yn cynnwys rheoli llygredd, ansawdd aer, iechyd a diogelwch, diogelwch bwyd ac iechyd porthladdoedd)</li> <li>• Partneriaeth Iechyd Dŵr Cymru</li> <li>• Panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy sy'n cyfarfod bob chwarter</li> <li>• y Grŵp Cyngori ar gyfer Diogelu Iechyd a'i is-grwpiau</li> <li>• Bwrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Ymgynghorydd Fforwm Diogelu Iechyd</li> </ul> <p>Rhannu rhai platfformau Technoleg Gwybodaeth (TG) ond nid pob un. Brwdfrydedd i wella gwyliadwriaeth gyfredol gan ddefnyddio technolegau digidol a genomeg mwy newydd.</p> <p>Byddai'r System yn croesawu mwy o waith monitro ansawdd aer yn gyffredinol ac yn ystod digwyddiadau.</p> <p>Mae angen pwysleisio gwyddor ymddygiad gan fod dewisiadau ffordd o fyw wedi dirywio yn ystod Covid, ac mae pobl iach yn llai agored i fygythiadau clefydau heintus a bygythiadau eraill. Fodd bynnag, mae nifer yr aelodau staff ymroddedig lleol yn brin, ac nid oes disgrifiad cyffredin o'u rolau a'u cyfrifoldebau craidd.</p>
<p>Cysylltiadau ag adrannau iechyd cyhoeddus cadarn mewn prifysgolion.</p>	<p>Roedd arbenigwyr ym Mhrifysgolion Cymru yn cefnogi dadansoddiadau o'r pandemig, gan gynnwys defnydd helaeth o genomeg, gan arwain at ddatblygiadau sylweddol mewn gwasanaethau diagnostig/dadansoddol.</p>
<p>Y gallu i ffurfio partneriaethau yn y llywodraeth a chyda'r gymdeithas sifil a'r sector preifat.</p>	<p>Ystyriwyd bod cydweithio â diwydiant yn ddefnyddiol ond heb ei ddatblygu cystal ag y gallai. Roedd caffael a dosbarthu yn ystod y pandemig yn broblemus, yn enwedig ar y dechrau. Gallai Hwb Gwyddorau Bywyd fod yn bartner defnyddiol, yn ogystal â chwmnïau diagnosteg labordy a chwmnïau cyfarpar diogelu personol (PPE). Efallai y bydd angen ysgogi arloesedd.</p> <p>Mae timau diogelu iechyd wedi'u sefydlu yn Lloegr. Nid oes timau cyfatebol yng Nghymru ond mae rhai Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn datblygu timau amlddisgyblaethol/amlasiantaethol er mwyn cynnal lefel o ymwybyddiaeth a pharodrwydd yn lleol.</p> <p>Roedd y strwythurau Argyfyngau Sifil Posibl yn golygu bod modd i arweinwyr argyfyngau sifil posibl Llywodraeth</p>

	<p>Cymru gyfathrebu'n rheolaidd ag Arweinwyr Cadernid Lleol a Gweinidogion. Sefydlwyd y Grŵp Parodrwydd a Risg. Cydnabuwyd yn Llywodraeth Cymru yr angen am ganllawiau gwleidyddol a thechnegol amserol.</p> <p>Roedd Grŵp Cydgysylltu Strategol Iechyd Cyhoeddus yn golygu bod sawl pwynt briffio ar gyfer rhoi'r holl wybodaeth ddiweddaraf i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a'u Grwpiau Cydgysylltu Strategol.</p>
<p>Cynlluniau ymlaen llaw ysgrifenedig ar gyfer pa wasanaethau i'w darparu mewn argyfwng iechyd y cyhoedd, a'r hyn y bydd sefydliadau eraill yn ei ddarparu wrth ymateb.</p>	<p>Roedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi'n dda yn ariannol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig Covid ond er mwyn sicrhau cydnerthedd yn y dyfodol, mae angen adolygu ac egluro'r cydbwysedd rhwng polisi, adnoddau a chyflawni, a'r gallu i gynyddu graddfa gweithgarwch yn ôl y galw.</p> <p>Gan fod yr ymateb olrhain cysylltiadau wedi newid o gael ei arwain gan ICC i gael ei arwain gan wasanaethau lleol ac yna wrth i'r gwasanaeth TTP ffurfiol gael ei sefydlu, un agwedd allweddol sydd ar goll yw'r diffiniad llawn o rôl y byrddau iechyd o ran diogelu iechyd. Mae angen gwybod pa adnoddau sydd ar gael yn lleol a sut i'w roi ar waith. Gellir adleoli staff i weithgareddau ymateb o rannau eraill o'r sefydliadau gwasanaeth lleol ond mae hyn yn cael effaith ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau arferol. Roedd disgwyl y byddai'r ôl-groniad yn y GIG ac yn y maes Diogelu'r Cyhoedd yn sgil Covid yn cymryd blynyddoedd i'w oresgyn yn lleol.</p>
<p>Asesu capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y cleifion ac eirioli dros gydnerthedd.</p>	<p>Nid yw'r capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y cleifion wedi bod yn ddigonol yng nghyd-destun triniaethau a gwasanaethau gofal y GIG, sydd bellach yn ymdrin â thriniaethau gohiriedig a chyflyrau'n cael eu cyflwyno'n hwyr.</p>

## Argymhellion manwl

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
Cynnal gallu ymateb integredig cynaliadwy fel y gwelwyd yn ystod Covid drwy barhau i ddod â'r system ehangach, o'r lleol i'r rhanbarthol a chenedlaethol, ynghyd wrth ymarfer a hyfforddi fel ei bod yn gweithio fel un ac nad yw'n mynd yn dameidiog.	Sicrhau bod timau Iechyd Cyhoeddus a Diogelu'r Cyhoedd Lleol yn parhau i gael eu cryfhau gyda disgrifiad clir o'u rolau a'u cyfrifoldebau craidd, gan gynnwys gwyddor ymddygiad, labordai Iechyd y cyhoedd, Iechyd yr Amgylchedd ac Atal a Rheoli Heintiau, gan sicrhau yr un pryd bod ôl-groniadau mewn gwasanaethau GIG a Diogelu'r Cyhoedd yn cael eu clirio ac nad ydynt yn arwain at ddirywiad yn Iechyd a lles y cyhoedd, gan feithrin mwy o degwch o ran Iechyd a sicrhau bod pob unigolyn yn llai agored i fygythiadau o glefydau heintus a bygythiadau eraill nad ydynt yn glefydau heintus.
Asesu capasiti ar gyfer cynnydd yn nifer y cleifion yng ngwasanaethau'r GIG ac eirioli dros fwy o gydnerthedd yn ôl yr angen.	Ystyried ysgogi arloesedd a chynhyrchu PPE a phrofion diagnostig labordy yn lleol i'w defnyddio'n rheolaidd, ac fel darpariaeth wrth gefn rhag ofn y bydd eu hangen oherwydd pandemig.
Parhau â chyfarfodydd rheolaidd y Grŵp Cydgysylltu Strategol Iechyd y Cyhoedd a chynnwys pob perygl. Dylid darparu diweddariadau rheolaidd i'r system fwy gan gynnwys timau Iechyd Cyhoeddus Lleol, Diogelu'r Cyhoedd, microbioleg ac argyfyngau sifil posibl.	Cynyddu'r defnydd o dechnolegau digidol, gan gynnwys gwyliadwriaeth gyfranogol a chytundebau mynediad ar gyfer rhannu data, er mwyn asesu'n well y sefyllfa bresennol o ran clefyd a chynyddu sensitifrwydd canfod, ac ystyried sefydlu fframwaith atebolrwydd a fydd yn nodi lle mae anghydraddoldebau'n digwydd.

## Llywodraethu ac atebolrwydd

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

<b>Egwyddorion system Iechyd sy'n perfformio'n dda</b>	<b>System Cymru</b>
Confederasiwn anffurfiol amlasiantaethol o sefydliadau sy'n gweithredu'n annibynnol gyda dealltwriaeth glir o'u rôl mewn argyfyngau.	Fe wnaeth Gweithdrefnau Gweithredu Safonol weithio'n dda ar gyfer gweithgareddau ar alwad y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru, a ddarparwyd ar y cyd gan Dîm Ymbelydredd, Cemegion a Pherylon Amgylcheddol (Cymru) Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU a Thîm yr Amgylchedd ICC. Roeddent yn cymryd rhan yn yr ymateb i'r pandemig

	<p>drwy TAG-E yn enwedig ynghylch awyru a deunyddiau glanhau. Fodd bynnag, maent yn poeni am gydnerthedd gan eu bod yn dîm bach.</p> <p>Nid yw'r amrywiaeth o ddigwyddiadau amgylcheddol y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ymdrin â nhw heb newid, ond mae cydnerthedd yn parhau i gael ei adolygu. Roedd hawddfreintiau mewn deddfwriaeth ar gyfer diogelwch bwyd (e.e. newidiadau labelu bwyd o dan derfynau amser) a oedd yn cael eu caniatáu yn ystod y pandemig ac y gellid eu cyflwyno eto pe bai angen.</p>
<p>Mecanweithiau cydgysylltu sefydledig ar gyfer swyddogaethau rheolaidd ym maes gwylidwriaeth ac ymateb iechyd y cyhoedd sy'n cael eu gwasgaru ar draws y llywodraeth.</p>	<p>Roedd atebolrwydd yn ystod y pandemig yn glir ar gyfer partneriaid Fforymau Lleol Cymru Gydnerth/Grŵp Cydgysylltu Strategol: Prif Weithredwr y bwrdd iechyd i gael ei hysbysu gan dîm rheoli achosion os nad yw partneriaid yn gweithio yn ôl y cynllun achosion, ac oddi yno uwchgyfeirio materion i Weinidogion os oes angen; roedd partneriaid yn gweithio yn ôl y cynllun yn ystod y pandemig ac nid oedd angen hysbysu gweinidogion.</p> <p>Mynegwyd pryder nad oes gallu digonol ar gael i adnabod ac asesu risg bygythiadau credadwy gan gynnwys y pandemig, digwyddiadau CBRN, digwyddiadau mawr ac achosion o glefydau heintus wedi'u cynnwys yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig y bwrdd iechyd. Efallai na fydd gan Fyrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol a Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ddealltwriaeth o sut a phryd i fynd ati ar y cyd i roi adnoddau mewnol ar waith o'r sefydliadau partner hyn.</p> <p>Nid yw diffiniad y rolau rhwng Llywodraeth Cymru, ICC a gwasanaethau lleol yn ddigon clir nac ychwaith y ddealltwriaeth o'r angen am hyblygrwydd lleol.</p>
<p>Dealltwriaeth a chytundeb clir i rannu adnoddau wrth ymateb i argyfyngau</p>	<p>Rhannwyd adnoddau a data wrth ymateb i argyfyngau drwy amrywiaeth o fecanweithiau gan gynnwys</p>

<p>gyda chytundebau sy'n golygu y gellir rhannu data yn gyflym ac yn effeithlon.</p> <p>Gweithdrefnau hysbysu safonol ar gyfer argyfyngau gyda phwyntiau sbarduno sefydledig a meini prawf ar gyfer gweithredu.</p>	<p>cydweithredu drwy raglenni gwyliadwriaeth, Timau Rheoli Digwyddiadau rhanbarthol a lleol ac adroddiadau SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad) i arweinwyr Diogelu Iechyd yn Llywodraeth Cymru, ond mae angen cyfleu'n well y mesurau llwyddiant, manteision a risgiau, er mwyn cyfrif am yr arian a wariwyd ar ddiogelu iechyd.</p> <p>Y gallu i adleoli staff o'r holl asiantaethau i gydweithio a hynny wedi'i ysgrifennu mewn dogfennau; yr asiantaeth gyflogi a fydd yn llywodraethu ar gyfer pob aelod staff.</p>
<p>Polisiâu cyson sy'n ymwneud â thestunau dynol, uniondeb data, urddas a phreifatrwydd.</p>	<p>Mae'n bosibl na fydd gan rolau newydd a sefydlwyd yn ystod yr ymateb i Covid lwybrau llywodraethu, atebolrwydd, cymorth a chyfathrebu wedi'u sefydlu yr un pryd.</p> <p>Mae'n ymddangos bod y broses o roi adnoddau iechyd ar waith yn lleol bellach yn gyfrifoldeb Swyddogion Gweithredol Byrddau Iechyd, yn enwedig Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, ac nid oes unrhyw adnoddau diogelu iechyd i'w cael o'r tîm Iechyd Cyhoeddus lleol ar gyfer y rolau newydd hyn.</p> <p>Mae rhai rolau wedi trosglwyddo o un asiantaeth i'r llall, neu mae'r cydweithredu wedi dod i ben heb drafodaethau llawn.</p> <p>Gweithwyr proffesiynol a chof corfforaethol yn cael eu denu o un rhan o'r system i'r llall dros y blynyddoedd diwethaf, gan symud i asiantaethau gyda graddfeydd cyflog uwch.</p>
<p>Cydnabyddiaeth ac ymddiriedaeth gyhoeddus a llywodraethol.</p> <p>Sicrhau bod cyrff cynghori annibynnol ar gyfer pob gweithgaredd technegol.</p>	<p>Awdurdod llywodraeth ganolog a'r Prif Swyddog Meddygol yn cael ei dderbyn. Llywodraeth Cymru sydd â'r brif rôl o oruchwylio a dwyn i gyfrif ac nid ICC.</p>
<p>Dangosyddion ansoddol a meintiol clir o llwyddiant a mecanwaith atebolrwydd.</p>	<p>Mae'n ofynnol i academyddion gynnal safonau proffesiynol yn ôl eu cefndiroedd, a gellir gofyn i'r cyrff sy'n eu cyflogi arwyddo contractau/Memoranda Cyd-ddealltwriaeth sydd â llywodraethu</p>

	ac atebolrwydd am eu gwaith wedi'i gynnwys ynddynt.
Cynnwys y sector gwirfoddol (cyrff anllwydraethol fel y Groes Goch) a'r sector preifat fel sy'n briodol mewn gweithgareddau iechyd arferol ac argyfyngau.	Roedd y sector gwirfoddol yn ymwneud â chefnogi poblogaethau ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tasgau penodol wrth gyfyngu fel olrhain cysylltiadau. Mae'n rhaid i'r sector hwn gael cylch gwaith clir a derbyn cefnogaeth ddigonol os yw am fod yn rhan o'r ymateb.

### Argymhellion manwl

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
Mae angen mynd ati ar y cyd i adolygu'r holl gynlluniau diogelu iechyd a chynlluniau argyfyngau sifil posibl, yn awr ac yn y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u datblygu'n llawn, eu bod yn cyd-fynd â chynlluniau cyd-ddibynnol eraill, gan gynnwys cynlluniau lleol a chenedlaethol ar gyfer argyfyngau sifil posibl, a'u bod yn cynnwys llinellau cymorth a chyfathrebu clir. Dylid eu profi drwy ymarferion a gweithdai amlasiantaethol, gyda staff o bob lefel o'r sefydliadau'n cymryd rhan. Dylai mudiadau gwirfoddol a phrifysgolion fod yn rhan o'r prosesau datblygiadol hyn.	Cyd-ddatblygu fframwaith ffurfiol o lefel Prif Swyddog Meddygol i sefydliadau lleol sy'n rhoi disgrifiad clir o rolau a gweithdrefnau gweithredu ar gyfer cyfrifoldebau a rolau diogelu iechyd sy'n bodoli'n barod ac sy'n cael eu creu o'r newydd, wedi'u cefnogi'n llawn gan gytundebau partneriaeth a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth.
Parhau â chylch amlddisgyblaethol ac amlasiantaethol o gynllunio, hyfforddi, addysgu, ymarfer, adolygu, cynllunio ar bob lefel o aelodau staff a rhwng y lefelau hynny. Gweithredu ymarferion senario i egluro a gweithredu rolau ar bob lefel, gan gynnwys y sector gwirfoddol (gan symud tasgau o bosibl), fel y gellir hyfforddi pob un gyda'i gilydd ar gyfer pob perygl gan gynnwys argyfyngau iechyd CBRN.	Parhau i greu cysylltiadau agos ar gyfer ymchwil diogelu iechyd â'r byd academiaidd ar gyfer atal, rheoli ac ymateb.
Diweddarar/cynhyrchu llawlyfrau hyfforddi ar gyfer rolau a gweithdrefnau gweithredu gan gynnwys amserlenni clir a'r hyn sy'n sbarduno gweithgareddau argyfwng fel agor canolfannau profi.	Sicrhau cydnerthedd amgylcheddol ar gyfer pob perygl gan gynnwys hawddfreintiau yn ôl y gofyn, a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.



<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
<p>Cryfhau/mynd ar drywydd cytundebau newydd gyda chenhedloedd eraill y DU ar gyfer ymateb i argyfwng diogelu iechyd a rhannu profiadau yn rhyngwladol mewn meysydd fel gwylidwriaeth (e.e. creu Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd genedlaethol ar gyfer gwylidwriaeth).</p>	<p>Cynnal a datblygu cyrff cyngori a rhestrau o wirfoddolwyr ar gyfer gwaith atal a rheoli arferol gan gynnwys academyddion annibynnol a chynrychiolwyr partneriaid a grwpiau gwirfoddol, ac os nodir hynny ac nad oes unrhyw achos o wrthdaro buddiannau, y sector preifat. Sicrhau bod y grwpiau hyn yn cael eu cynnwys hefyd mewn ymarferion argyfwng cenedlaethol neu ranbarthol.</p>

## Y gweithlu

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

<b>Egwyddorion system iechyd sy'n perfformio'n dda</b>	<b>System Cymru</b>
<p>Gweithwyr sydd â hyfforddiant ar gyfer diogelu iechyd mewn amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys epidemioleg, gwyddorau labordy, polisi iechyd, cyfathrebu iechyd, technoleg gwybodaeth, a rheolaeth.</p> <p>Sicrhau amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol gan gynnwys gyda phob partner.</p>	<p>Mae'r gweithlu wedi'i ddsbarthu ar draws y sectorau ond mae llawer o'r arbenigedd yn y sefydliadau canolog. Roedd y bobl hynny a oedd ag arbenigedd heb gael eu cefnogi'n ddigonol, roedd hi'n anodd cymryd gwyliau, gallai arwain at 'un pwynt methiant'. Mae'n debyg nad yw hyn wedi newid gan nad oes digon o arbenigwyr yn y maes diogelu iechyd, gan gynnwys yn Llywodraeth Cymru, i ganiatáu cysgodi a rhannu swyddi.</p> <p>Cafodd rolau lechyd y Cyhoedd a Diogelu'r Cyhoedd cyffredinol eu hatal yn ystod cyfnod clo'r pandemig, gan ganiatáu i staff a ryddhawyd gynorthwyo gyda TTP ac ymatebion eraill.</p> <p>Roedd y penderfyniad i gyflogi staff ar gyfer TTP yn lleol drwy'r sector cyhoeddus yn caniatáu hyblygrwydd ar draws y system a'r gallu i gynyddu neu gwtogi'r gwasanaeth yn ôl y galw. Ystyriwyd bod gwybodaeth leol y staff yn ddefnyddiol. Mae staff a gyflogwyd i gyflwyno TTP sy'n parhau yn y swydd yn wynebu cael eu diswyddo ym mis Mawrth 2023, er bod rhai wedi bod yn hanfodol o ran cynorthwyo gyda heriau diogelu iechyd presennol fel Brech y Mwncïod. Mae rhai'n teimlo eu bod wedi'u galluogi a'u grymuso i symud ymlaen i rolau newydd, mae rhai yn dymuno datblygu sgiliau diogelu iechyd mwy helaeth a chael eu cadw fel staff. Gallai'r rhai a letyir gan y GIG weithredu fel epidemiolegwyr maes y gellir eu dadleoli i gefnogi Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau</p> <p>Trosoglwyddadwy/Ymgynghorwyr Diogelu Iechyd (CCDC/CHP) a nyrsys Diogelu Iechyd ar amrywiaeth o ddigwyddiadau. Pe byddent yn cael eu cyflogi mewn awdurdodau lleol gallent</p>

	<p>barhau i gefnogi gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd sy'n ymdrin ag ôl-groniadau mewn swyddogaethau diogelu iechyd statudol. I'r gwrthwyneb, gellid eu hystyried i gyd fel un grŵp i gael ei ddefnyddio'n hyblyg rhwng ymatebion diogelu iechyd y GIG a Diogelu'r Cyhoedd. Pe bai hyn yn digwydd, byddai angen arweinyddiaeth a chyfeiriad clir ar draws y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol a gwaith partneriaeth cryf.</p> <p>Newidiodd y model gweithredu yn ICC yn ystod y pandemig gydag adnoddau arbenigol wedi'u canoli o fis Gorffennaf 2021 mewn tair canolfan ranbarthol. Roedd Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol hefyd yn cael eu paratoi ar gyfer pontio o ICC i Fyrddau Iechyd.</p>
<p>Addysg barhaus arferol a gwaith monitro capasiti presennol ac anghenion heb eu diwallu yn arwain at hyfforddiant atodol yn ôl yr angen.</p>	<p>Nid yw'r buddsoddiad mewn staff arbenigol ar gyfer peryglon nad ydynt yn glefydau heintus wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf er bod y llwyth gwaith wedi tyfu ym meysydd y newid yn yr hinsawdd, llifogydd, sychder, gwres, oerfel ac ansawdd aer. Nid yw timau Iechyd yr Amgylchedd Awdurdodau Lleol yn cael buddsoddiad yn dilyn Covid, a gofynnir i rai wneud toriadau.</p>
<p>Denu a chadw gweithwyr medrus gyda llwybrau clir ar gyfer datblygu gyrfa a chynllunio olyniaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau cymhellion a sicrhau bod pobl yn fodlon yn eu swyddi.</p> <p>Sefydlu a chynnal partneriaethau gwaith gyda phrifysgolion yn dilyn gofynion trwyddedu ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd cyhoeddus.</p>	<p>Roedd hyblygrwydd yn ystod y pandemig wedi creu ystwythder a bu staff yn magu sgiliau ychwanegol. Maent bellach yn dychwelyd i'w rolau gwreiddiol gan barhau i gyflawni rhywfaint o waith sy'n ymateb i'r pandemig. Mae Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol wedi'u symud o ICC i Fyrddau Iechyd. Bydd angen rolau a chyfrifoldebau clir arnynt yn eu sefydliadau newydd. Mae rhai staff yn frwdfrydig iawn i gadw ac o bosibl ymestyn eu sgiliau diogelu iechyd. Mae yna bryder y gallai ymgynghorwyr leihau eu rhan mewn gweithgareddau ar alwad, gan arwain golli eu sgiliau diogelu iechyd. Mae pryder hefyd na fydd mor hawdd eu defnyddio i gefnogi ymatebion diogelu iechyd canolog yn y dyfodol oherwydd y byddant yn cael eu cyflogi gan Fyrddau Iechyd.</p>

Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd wedi datblygu arbenigedd mewn atal heintiau anadlol ac mae ganddynt fwy o rôl yn cefnogi Partneriaethau Gofal Integredig mewn cartrefi gofal ond nawr mae angen mynd i'r afael ag ôl-groniad eu cyfrifoldebau Diogelu'r Cyhoedd a gafodd eu hatal dros dro.

Mae arweinwyr yn dweud bod eu staff wedi bod yn arwrol ac wedi bod yn hyblyg ond nad oes fawr o bosibiliadau ar gyfer gweithio'n hyblyg fel hyn eto. Staff yn dal i adfer, a rhai hyd yn oed yn dal i fod mewn modd gweithredol.

Roedd rhai staff yn teimlo eu bod wedi gorfod wynebu lefel uchel o risg e.e. bu staff yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithio ar y rheng flaen mewn unedau prosesu bwyd mawr yn ystod y pandemig er eu bod yn teimlo'n bryderus yn aml iawn. Mae llawer yn dymuno dychwelyd i'w rolau blaenorol lle y bo hynny'n bosibl, gan gadw'r gallu ar gyfer model hybrid o weithio gartref/yn y swyddfa.

Ni fyddai llawer o grwpiau staff wedi disgwyl gwneud cyfraniad mor fawr at ymateb i bandemig felly mae angen ystyried ôl-drafodaeth â nhw a chynnwys hynny mewn Swydd-ddisgrifiadau wrth symud ymlaen. Maent yn weithlu pwysig ar gyfer cyfnodau o ymchwydd yn y galw.

Dylai cyflogwyr gadw manylion y rhai sydd wedi ennill sgiliau yn y gwasanaeth TTP a'u hannog i loywi eu sgiliau o bryd i'w gilydd drwy hyfforddiant strwythuredig fel bod modd galw arnynt eto os oes angen.

Mae pryderon yn ymwneud â lles staff yn cynnwys dwysedd y gwaith, oriau hir, teimlo'n ynysig, gweithio mewn maes anghyfarwydd, rhwystredigaeth dros ddiffyg gwaith yn y meysydd maent yn eu ffafrio, dryswch dros rolau, peidio â bod yn glir ynghylch y disgwyliadau sydd arnynt; hefyd anesmwythyd nad oedd staff eraill i'w gweld yn newid o'r modd busnes fel arfer.

	<p>Roedd gweithio gartref a mesurau ychwanegol i gefnogi lles staff fel peidio ag anfon negeseuon e-bost cyn 9am a pheidio â threfnu cyfarfodydd cyn 9.30am, yn cael eu gwerthfawrogi pan gawsant eu gweithredu.</p> <p>Mae'n anodd recriwtio i swyddi gwag presennol ym maes lechyd yr Amgylchedd mewn awdurdodau lleol oherwydd prinder gweithwyr proffesiynol hyfforddedig a chyflogau uwch mewn asiantaethau sy'n cystadlu.</p> <p>Mae trefniadau amrywiol ar gyfer gosod safonau ar gyfer staff, yn dibynnu ar eu llwybr mynediad i'r gwasanaeth. Dylai safonau proffesiynol grwpiau amrywiol sy'n gosod safonau fod yn gyson â'i gilydd, ategu ei gilydd a bod yn synergyddol er mwyn helpu i gynnal ansawdd yn effeithiol ac osgoi dyblygu a dryswch i staff newydd a staff presennol wrth iddynt ystyried eu llwybrau gyrfu.</p> <p>Nid yw staff gofal iechyd yn cael eu hyfforddi fel rhan o'r system ehangach ar gyfer diogelu iechyd ond dylid eu hystyried yn ffynhonnell bwysig o gymorth mewn cyfnodau o ymchwydd yn y galw.</p> <p>Dangosodd gwirfoddolwyr lefel uchel o ewylllys da, roeddent yn cynorthwyo lle bo angen, a gallent o bosibl fod wedi gwneud gweithgareddau TTP syml.</p>
<p>Datblygu a goruchwylio cynlluniau strategol, polisiau, a rhaglenni atal a rheoli.</p>	<p>Mae rhai asiantaethau partner wedi cael mwy o fuddsoddiad nag eraill - mae Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy ac Ymgynghorwyr Diogelu lechyd wrthi'n cael eu recriwtio i ICC.</p> <p>Nid oes gan rai gwasanaethau lleol yr un CCDC/CHP wedi'i nodi y gellir datblygu trefniadau diogelu iechyd yn lleol ag ef ac maent yn gyndyn o ysgwyddo rolau arweinyddiaeth yn y maes diogelu iechyd oherwydd dryswch ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Mae gan ICC y cymhwysedd ac mae angen iddo</p>

	<p>ymsgysylltu â gwasanaethau lleol er mwyn sicrhau partneriaeth gadarn ar gyfer diogelu iechyd.</p> <p>Ar gyfer argyfyngau nad ydynt yn glefydau heintus, mae trefniadau yn gliriach ac mae diogelu iechyd wedi'i gynnwys yng Ngrŵp Paratoi mewn Argyfwng, Ymateb ac Adfer (EPRR) Iechyd Cyhoeddus y Pedair Gwlad, sy'n rhoi cymorth ychwanegol.</p>
--	-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

### Argymhellion manwl

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
<p>Nodi a chynnal modelau gweithio newydd ar gyfer trefniadau brys a gafodd eu creu ac a fu'n effeithiol yn ystod y pandemig, gyda rolau a chyfrifoldebau a chymorth yn cael eu dirprwyo ac yn glir. Gall y defnydd o gontractau anrhydeddus helpu i gadw effeithiolrwydd gweithio rhyngasiantaethol.</p>	<p>Mae angen cadw cydnorthedd lleol yn dilyn adferiad o'r pandemig Covid. Er mwyn i dîm ymateb lleol ar gyfer clefydau endemig a rheoli achosion fod yn effeithiol, mae angen mewnbwn arbenigwyr diogelu iechyd a chefnogaeth epidemiolegwyr maes. Yn ogystal, dylid ymgysylltu â'r sector gwirfoddol yn genedlaethol ac yn lleol er mwyn archwilio pa gyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud i'w reoli ar hyn o bryd, ac ar gyfer argyfyngau a digwyddiadau mawr eraill yn y dyfodol.</p>
<p>Creu a diweddarau'n rheolaidd restrau staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys y rhai a gyflogwyd yn ystod y pandemig i gefnogi ymateb lleol pan nad oes eu hangen mwyach, a chynnig eu bod yn ymgynnull yn flynyddol ac yn cael hyfforddiant i ddiweddarau eu sgiliau. Ystyriwch gynnwys 'darparu cymorth yn ystod digwyddiadau diogelu iechyd' mewn swydd-ddisgrifiadau enghreifftiol ar gyfer amrywiaeth eang o staff anarbenigol.</p>	<p>Adolygu anghenion y gweithlu diogelu iechyd yn rheolaidd a nodi sgiliau hanfodol ar gyfer cwblhau gweithgareddau diogelu iechyd arferol a symud yn gyflym ar gyfer ymateb cyntaf.</p>
<p>Yn ogystal ag eglurder rolau, cryfhau lles drwy roi gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau digon o amser lles (e.e. yr oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos, gwyliau blynyddol) yn ystod argyfyngau a'r cyfnod adfer.</p>	<p>Dylid cychwyn trafodaethau gyda phrifysgolion a darparwyr addysg drydyddol eraill er mwyn archwilio mecanweithiau i annog myfyrwyr ar gyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd i gefnogi ymatebion diogelu iechyd arferol a chymryd rhan mewn ymarferion ac ymatebion yn y dyfodol ar gyfer pob perygl. Ystyried ailgychwyn gradd Iechyd</p>

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
	yr Amgylchedd pedair blynedd gyda myfyrwyr yn gwneud lleoliad gwaith mewn Awdurdod Lleol yn eu trydedd flwyddyn.
Ystyried cynnwys myfyrwyr iechyd perthynol fel rhan o ymarferion pob perygl yn y dyfodol er mwyn cynyddu'r gronfa o ymatebwyr a chynyddu diddordeb mewn iechyd cyhoeddus.	Asesu dichonoldeb symud tasgau gan gynnwys i grwpiau gwirfoddol cymwys a sefydlu rhaglenni hyfforddi ac ardystio i gynorthwyo gyda gweithgareddau rheoli arferol.
Dylid sefydlu rhaglen hyfforddi iechyd cyhoeddus amgylcheddol amlasiantaethol sy'n seiliedig ar anghenion, wedi'i chysylltu â fframwaith cymhwysedd newydd ar gyfer arbenigwyr yn y maes.	Datblygu model hybrid clir ar gyfer gweithio gartref/yn y swyddfa nad yw'n peryglu gweithgareddau diogelu iechyd.
	Cefnogi/datblygu rhaglenni i gymell a chydabod staff.
	Gallai ICC ddechrau archwilio cyfleoedd masnachol i greu incwm a chynaliadwyedd gyda'r datblygiadau newydd ym maes profion labordy, yn enwedig mewn perthynas â genomeg.
	Ystyried pa safonau y dylai cynorthwywyr gofal iechyd gadw atynt a chreu llwybrau datblygu gyrfa ar eu cyfer.

## Arweinyddiaeth, cydweithredu a chyfathrebu

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

<b>Egwyddorion system iechyd sy'n perfformio'n dda</b>	<b>System Cymru</b>
<p>Cydweithredu a chyfathrebu mewnol, dirprwyo ac adeiladu tîm.</p> <p>Cydweithredu â chymdeithas sifil a'r sector preifat yn seiliedig ar fantais gymharol a heb wrthdaro buddiannau.</p> <p>Dylanwadu ar benderfyniadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth am yr amgylchedd ac amodau eraill sy'n effeithio ar iechyd gan gynnwys newid ymddygiad ar gyfer ffyrdd mwy iach o fyw.</p>	<p>Mae argyfyngau cenedlaethol yn gofyn am ymatebion lleol cryf.</p> <p>Gwlad fach, felly mae llawer o bobl yn y maes Diogelu Iechyd yn adnabod ei gilydd ac mae partneriaid lleol yn adrodd cysylltiadau gwaith cryf ac arweinwyr uchel eu parch. Fodd bynnag, roedd diffyg eglurder ynghylch pwy ddylai arwain yr ymateb cychwynnol yng nghyfnod cynnar y pandemig.</p> <p>Mae Llywodraeth Leol yn rhyngweithio â'u cymunedau mewn sawl ffordd. Drwy rwydweithiau a gwasanaethau, mae'n deall anghenion diogelu iechyd lleol ac yn mynd i'r afael â nhw.</p> <p>Ni wnaeth cynlluniau argyfwng blaenorol lwyddo a llywio'r ymateb i'r pandemig ond datblygodd cydweithio cryf yn gynnar gan ddangos gwerth ymateb a arweinir yn lleol ar gyfer argyfyngau cenedlaethol drwy ddatblygu systemau a ddarperir drwy'r gwasanaethau cyhoeddus presennol.</p> <p>Roedd cydweithredu rhwng gweithwyr proffesiynol a rhwng sefydliadau yn bodoli, a hwylusodd yr ymateb ac fe sefydlwyd rhai trefniadau newydd yn y cyfnod adfer fel Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth Llywodraeth Cymru.</p> <p>Fe wnaeth Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Leol arwain a chefnogi Cartrefi Gofal mewn perthynas ag amrywiaeth eang o beryglon diogelu iechyd. Yn y cyfnod adfer hwn, mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu.</p> <p>Roedd y lluoedd arfog yn werthfawr wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu system newydd fel proses gynhwysfawr ar gyfer samplu, profi, a chanlyniadau.</p>



	<p>Roedd yr ASB yn hapus gyda lefel y cydweithredu a chyfathrebu, cafwyd allbynnau o asesiadau technegol ac adroddwyd cysylltiadau gwaith da.</p> <p>Fe wnaeth mecanwaith a oedd yn rhoi cymeradwyaeth weinidogol i oedi gweithgareddau diogelu iechyd nad oeddent yn ymwneud â'r pandemig helpu i sicrhau bod ffocws yr ymateb ar y pandemig. Nodwyd ac ariannwyd mecanweithiau newydd ar gyfer y pandemig, a chawsant eu rhoi ar waith yn llwyddiannus.</p> <p>Mae modelau Fforwm Diogelu Iechyd Lleol a/neu Grŵp Goruchwylio Rhanbarthol wedi'u sefydlu mewn rhai rhanbarthau ond i rai nid yw'r Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Diogelu Iechyd hanfodol wedi'u nodi eto i gefnogi'r trefniadau lleol hyn.</p> <p>Erbyn hyn, mae Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn cyfarfod ICC bob mis i barhau â'r cydweithredu wedi'r pandemig.</p> <p>Nid yw llif y cyfathrebu'n glir bob amser - roedd rhai uwch arweinwyr a staff yn teimlo eu bod wedi'u heithrio neu'n cael newyddion ar ôl partneriaid eraill roeddent yn cydweithio â nhw; pryder mawr am gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru'n yn uniongyrchol i'r cyfryngau/cyhoedd cyn i arweinwyr gwasanaethau baratoi, yn enwedig yn achos cyhoeddiadau'n cael eu gwneud ar fore Gwener lle'r oedd disgwyl gweithredu y dydd Llun canlynol.</p> <p>Gellid gwneud defnydd gwell o adnoddau presennol drwy gydgyssylltu llif y cyfathrebu, lleihau'r angen am ddyblygu, a thrwy hwyluso gweithio ar draws disgyblaethau.</p>
<p>Darparu cymorth technegol a gwybodaeth hawdd ei deall i gymdeithas sifil a'r cyhoedd.</p>	<p>Mae angen i'r negeseuon cyfathrebu canolog ymateb i'r cyhoedd ac i ofynion gweithwyr proffesiynol eraill nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, undebau a</p>

<p>Datblygu/diweddaru taflenni ffeithiau a deunyddiau eraill gan gynnwys y rhai ar gyfer hyfforddi ymatebwyr cyntaf a gweithwyr iechyd y cyhoedd.</p>	<p>gwleidyddion. Angen pontio'r bwlch mewn gwybodaeth, diwylliant a rhagdybiaethau. Mewn rhai achosion, cynhyrchwyd mwy a mwy o ganllawiau manylach pan fyddai wedi bod yn well cyd-ddatblygu a diweddarau canllawiau craidd yr oedd modd eu dehongli ar gyfer pob sefyllfa.</p> <p>Weithiau roedd newidiadau i wasanaethau'n cael eu gweithredu cyn i'r effaith lawn gael ei mapio a heb ddigon o ymgynghori.</p>
<p>Cynnwys cymunedau wrth ddatblygu a dylunio rhaglenni i hybu iechyd ac atal clefydau.</p>	<p>Roedd systemau cymorth ffôn lleol, a oedd yn cael eu staffio gan bobl a oedd yn adnabod cymunedau lleol, yn rhoi cyngor ymarferol.</p>
<p>Bod yn rhan o gynllunio lefel uchaf y llywodraeth ar gyfer ymateb i argyfyngau a thrychinebau a'u rheoli.</p>	<p>Angen buddsoddi'n barhaus mewn Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol gyda rolau diogelu iechyd sy'n newid (e.e. yn ystod Covid cefnogodd y tîm diogelu iechyd arbenigol canolog yr ymateb i heintiau nad oeddent yn ymwneud â Covid tra bod rhannau eraill o ICC, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol wedi cyflawni dyletswyddau Covid) a chysondeb gan fod Byrddau Iechyd bellach yn rhoi staff anarbenigol ar waith yn lleol/rhanbarthol mewn trefniadau newydd.</p>

### Argymhellion manwl

<p><b>Parodrwydd am argyfwng</b></p>	<p><b>Rheolaeth arferol</b></p>
<p>Ceisio adeiladu ar y cysylltiadau da presennol wrth agor rhai o'r mecanweithiau cyfathrebu arferol i bartneriaid argyfyngau sifil posibl.</p>	<p>Adolygu sut y darperir cymorth i gartrefi gofal cofrestredig ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a mesurau iechyd cyhoeddus ehangach fel atal codymau. Gellid datblygu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol i'w defnyddio yn ystod ymweliadau staff Bwrdd Iechyd a Diogelu'r Cyhoedd er mwyn lleihau dyblygu a defnyddio setiau sgiliau allweddol partneriaid.</p>
<p>Adolygu a chynnal profion straen ar y System o ran atebolrwydd a llywodraethu i gynnig hyfforddiant arweinyddiaeth a sicrhau trefniadau</p>	<p>Ymgorffori newidiadau i arweinyddiaeth y GIG, awdurdodau lleol a newidiadau eraill i arweinyddiaeth mewn polisïau a Gweithdrefnau Gweithredu Safonol</p>

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
newydd ar gyfer ymateb i argyfwng sy'n addas i'r diben, gyda mesurau ansawdd a chymorth i swyddogion gweithredol y tu allan i oriau.	wedi'u cydgynhyrchu. Cytuno ar bwyntiau sbardun ar gyfer uwchgyfeirio ymateb.
Dylai'r rhai sy'n ymwneud â'r system cynllunio a pharodrwydd diogelu iechyd ymgysylltu â'u Fforymau Cydnerthedd Lleol er mwyn sicrhau bod trefniadau cynllunio rhag argyfyngau wedi'u hintegreiddio'n llawn.	Datblygu gweithlu lechyd Cyhoeddus cyffredinol sy'n cael ei arwain a'i reoli yn lleol sy'n gallu ymateb i heriau ehangach lechyd Cyhoeddus (e.e. triniaeth a arsylwir yn uniongyrchol ar gyfer TB, allgymorth imiwneiddio a rhaglenni lechyd Cyhoeddus eraill) ar gyfer grwpiau diffiniedig o'r boblogaeth a chadw ymgynghorwyr lleol anarbenigol yn y system ar alwad genedlaethol dan arweiniad ICC ar gyfer cydnerthedd cenedlaethol a lleol.
	Creu fforwm ar gyfer ôl-drafodaethau rheolaidd i glywed profiadau lleol a chyfnewid dulliau arferion gorau sy'n gwneud gwaith arferol yn haws a chadw diddordeb yn y maes diogelu iechyd wrth i Covid ddod yn endemig ac wrth i'r diddordeb bylu.
	Ymgysylltu â phartneriaid lleol yn rheolaidd, gan flaenoriaethu gwaith lliniaru risg yn ôl y galw.

## Deallusrwydd

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

Egwyddorion system iechyd sy'n perfformio'n dda	System Cymru
<p>Nodi problemau ac achosion yn ymwneud â chlefydau; newidiadau mewn cyfraddau marwolaethau, salwch, ac anafiadau yn ôl achosion; a ffactorau risg a diogelu ar gyfer marwolaethau, salwch, ac anafiadau mewn perthynas â phob perygl.</p>	<p>Amrywiaeth o systemau gwyliadwriaeth yn seiliedig ar hysbysiadau meddygon teulu, cofnodion electronig meddygon teulu, gweithgarwch ysbytai, canlyniadau microbiolegol, cyhoeddiadau wedi'u rhaglennu o arolygon, system gwyliadwriaeth ysgolion, gwyliadwriaeth brechu, systemau pwrpasol a sefydlwyd yn ystod argyfyngau, arolygon y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chofrestrfeydd ac ati.</p> <p>Datblygodd y Grŵp Cyngori Technegol (TAG) fecanwaith ar gyfer cyfrifo rhif atgenhedlu R a rhoddodd fodelau soffistigedig yn seiliedig ar y boblogaeth i lywio datblygiad polisi. Roeddent yn ceisio cael cydbwysedd rhwng y pum niwed y cytunwyd arnynt sy'n deillio o Covid yn eu gwaith.</p>
<p>Cynnal gwaith systematig parhaus o gasglu, dadansoddi a dehongli data iechyd drwy wylidwriaeth iechyd y cyhoedd.</p> <p>Cysylltu â systemau gwybodaeth am dderbyniadau i'r ysbyty, heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, diogelwch cleifion, a gwybodaeth benodol fel ymwrthedd gwrthficrobaidd.</p>	<p>Fe wnaeth llif gwybodaeth gan Dimau Rheoli Digwyddiadau lleol ac adroddiadau Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad (SBAR) gan bartneriaid lleol a rhanbarthol i swyddogion Llywodraeth Cymru weithio'n dda o ran sicrhau bod gan bawb yr wybodaeth ddiweddaraf. Wedi'i fwydo i Grŵp Llywio Swyddogion Grŵp Cyngori Diogelu Iechyd y Prif Swyddog Meddygol er mwyn llywio polisi gan beidio â llethu'r system gyda manylion.</p> <p>Casglwyd data gorfodi Diogelu'r Cyhoedd yn ymwneud â rheoliadau Covid gan y gwasanaeth a'i adrodd bob wythnos drwy system newydd a ddyluniwyd rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Data Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd, a fu'n ddefnyddiol.</p>

	<p>Ystyrir safoni fel yr allwedd i fasgynhyrchu gwybodaeth o ansawdd uchel.</p> <p>Roedd rhwystrau gyda rhywfaint o ddata ICC ond nid oedd y rhesymau'n glir.</p> <p>Roedd diffyg eglurder ynghylch llinellau cyfrifoldeb a thempledi gwybodaeth yn ystod cyfnodau cychwynnol y pandemig.</p> <p>Pryder bod y ffocws yn cael ei roi ar yr hyn y gellir ei gyfrif yn hawdd, gan arwain at ogwydd 'mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth' tra bod niwed heb ei gyfrif yn cael ei anwybyddu, ei anghofio neu ddim yn cael ei gydnabod, a gall barhau i ddigwydd.</p> <p>Angen lefel uchel o ymddiriedaeth yn y system bob amser er mwyn hwyluso'r gwaith o rannu data arferol ac mewn argyfwng.</p> <p>Rhoi cyngor mewn sawl dull, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost ond diffyg adnoddau i gadw golwg a sicrhau cysondeb, ac i nodi themâu mewn meysydd sy'n peri pryder.</p> <p>Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Covid yn dod i ben ym mis Mawrth 2023.</p> <p>Erbyn hyn mae Covid yn cael ei gynnwys mewn profion feirysol amlddadansoddiad.</p> <p>Mae angen cynyddu gwyliadwriaeth syndromig sy'n dibynnu ar gofnodion electronig meddygon teulu, 111 a rhwydwaith gwyliadwriaeth sentinel meddygon teulu, ac o bosibl ehangu ffynonellau gwybodaeth.</p>
<p>Cysylltu â gwasanaethau labordy dilys ar gyfer gwyliadwriaeth, gan gynnwys clefydau heintus, profi samplau amgylcheddol, bwyd, a chynhyrchion fferyllol.</p> <p>Cynnal system o labordai cyfeirio.</p>	<p>Datblygwyd atebion digidol y mae angen eu cadw ar gyfer gweithio o bell a gweithio hybrid yn y dyfodol.</p> <p>Mae ICC wedi datblygu gweithio digidol yn ystod Covid a fydd yn cael ei gadw.</p> <p>Roedd system TARIAN ICC wedi gweithio'n dda a gellid ei hehangu i</p>

<p>Lledaenu a defnyddio canlyniadau pob perygl i arwain camau gweithredu cyhoeddus arferol a/neu frys ar iechedd.</p>	<p>gynnwys digwyddiadau ac argyfyngau amgylcheddol, ansawdd aer, newid yn yr hinsawdd.</p> <p>Pryder am ddyblygu'r gwaith o gofnodi data sydd ei angen ar gyfer system Rheoli Cofnodion Achosion TTP a TARIAN</p> <p>Diddordeb mewn archwilio sut i gysylltu'r system CRM â TARIAN ac ymestyn y ddau i gwmpasu pob perygl.</p> <p>Roedd modelu patholeg foleciwlaidd y clefyd yn gymhleth ond yn werthfawr.</p> <p>Roedd anawsterau cael mynediad at adnoddau ar gyfer y labordai.</p> <p>Cafodd rhai anawsterau eu lliniaru drwy ddatganoli adnoddau.</p> <p>Dim gwyliadwriaeth unedig o ddigwyddiadau cemegol a'u heffeithiau ar iechedd.</p> <p>Mae system adrodd yr ASB yn dal i fod yn seiliedig ar bapur ac nid yw'n manteisio eto ar dechnolegau electronig/digidol.</p>
<p>Cael mynediad at ddata gwyliadwriaeth o ffynonellau eraill os oes angen.</p>	<p>Fe wnaeth Prifysgol Abertawe ddarparu arbenigedd mewn epidemioleg a modelu moleciwlaidd ar gyfer clefydau heintus.</p> <p>Fe wnaeth Prifysgol Bangor gynnal gwaith ymchwil ac adolygiad gwyddonol er mwyn llywio cyngor polisi. Daeth Bangor yn ganolfan wyliadwriaeth genedlaethol ar gyfer Covid mewn dŵr gwastraff.</p> <p>Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth yn ystod y pandemig o Adrannau eraill y Llywodraeth a thueddiadau rhyngwladol yn cael eu monitro drwy ffynonellau cyhoeddus fel gwyliadwriaeth Ewropeaidd a Sefydliad Iechyd y Byd a chronfa ddata SAIL Prifysgol Abertawe. Datblygwyd dangosfyrddau Covid yn cyfuno llawer o'r wybodaeth hon a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar gyfer defnydd mewnol ac ar gyfer y cyhoedd.</p>

	<p>Pryder yn ystod anterth y pandemig bod cwestiynau'n cael eu gofyn na allai Cymru eu hateb ac nad oedd ganddi amser nac adnoddau eraill o ran ymchwil, fel y risgiau sy'n gysylltiedig â theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.</p> <p>Mae angen i wyddorau ymddygiadol helpu gyda'r 'bwllch bwriad-gweithredu' canfyddedig mewn ymddygiadau diogelu, a allai fod wedi hwyluso trosglwyddiad.</p>
Cymryd rhan mewn ymdrechion gwylidwriaeth rhyngwladol, rhanbarthol a byd-eang.	Diffyg mynediad yng Nghymru at wybodaeth a data gwyddonol sy'n dod i'r amlwg yn y DU er bod llawer o ddata wedi'i anfon o Gymru.

## Argymhellion manwl

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
Codeiddio ymateb yn awr i fod yn barod ar gyfer y digwyddiad nesaf ac i geisio paratoi ymateb sy'n gymesur â lefel y bygythiad.	Adolygu'r holl systemau data'n sy'n gweithredu ar hyn o bryd ac archwilio sut gellir eu cyfuno, o fewn cyfyngiadau diogelwch Diogelu Data, er mwyn helpu i gasglu data a chynyddu eu gwerth mewn gwylidwriaeth.
Cydweithio â gwledydd eraill y DU i wella llif ddwy ffordd o wybodaeth wyddonol a data	Adolygu systemau presennol ar gyfer gwylidwriaeth a rheoli cofnodion achosion a datblygu cynllun ar gyfer dadansoddi a defnyddio data yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
Mae angen rhoi parodrwydd technegol ar waith ar gyfer systemau monitro, gwylidwriaeth ac asesu risg cadarn a gwydn ar gyfer bygythiadau feirysol sy'n dod i'r amlwg.	Systemau gwylidwriaeth digidol lle bynnag y bo modd gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf, gan gynnwys y rhai ar gyfer cyfathrebu.
Mae angen i systemau data a gwylidwriaeth gefnogi swyddogaethau lleol yn ogystal â swyddogaethau canolog.	Sefydlu cytundebau clir ar gyfer rhannu data er mwyn iddynt fod yn sail i wylidwriaeth gan gynnwys cofnodion cleifion o'r system ysbyty/meddygon teulu i ICC a chynnwys hysbysiad perygl electronig ym mhob system wylidwriaeth bresennol gan gynnwys TARIAN.

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
	Cryfhau cysylltiadau â rhaglenni gwylidwriaeth ryngwladol.
	Integreiddio patholeg foleciwlaidd â modelu sy'n seiliedig ar y boblogaeth ar gyfer pathogenau eraill.
	Sefydlu mecanweithiau y gellir ymddiried yn llawn ynddynt ar gyfer rhannu data yn effeithlon rhwng sefydliadau a sectorau.
	Byddwch yn ymwybodol o'r rhagfarn posibl wrth fonitro niwed y gellir ei gyfrif yn hawdd, ac a allai arwain at weithredu i fynd i'r afael ag ef, pan fo niwed arall sy'n anoddach ei fesur yn parhau yn ddisylw.



## Sganio'r gorwel a rhagweld

### Crynodeb o'r Canfyddiadau

<b>Egwyddorion system iechyd sy'n perfformio'n dda</b>	<b>System Cymru</b>
<p>Cynnal neu gomisiynu ymchwil sy'n hanfodol i gategoreiddio'n well problemau iechyd cyhoeddus yn y wlad, darparu tystiolaeth arall ar gyfer llunio polisïau, a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau presennol a/neu bosibl gan gynnwys drwy fodelu epidemiolegol.</p> <p>Cynnal neu gomisiynu astudiaethau epidemiolegol ac amlddisgyblaethol mawr o ymyriadau fel sgrinio a rheoli rhaglenni iechyd cyhoeddus â blaenoriaeth uchel.</p> <p>Cynnal cysylltiadau â phrifysgolion neu sefydliadau ymchwil eraill ar gyfer comisiynu a sganio'r gorwel.</p> <p>Sicrhau bod mecanweithiau ar waith i droi gwaith ymchwil a sganio'r gorwel yn benderfyniadau, polisïau a rhaglenni.</p>	<p>Mae poblogaeth iach yn sail i ddiogelwch iechyd gan fod pobl iach yn gallu gwrthsefyll clefydau yn well ac yn fwy gwydn yn eu hymatebion i fygythiadau. Mae gwasanaethau'r GIG a Diogelu'r Cyhoedd nad ydynt yn ymwneud â chlefydau heintus wedi cael eu heffeithio gan Covid ond mae arnynt angen cymorth yn awr i adfer.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld rhagor o ddigwyddiadau o arwyddocâd mawr neu fyd-eang, gan ddeall efallai na fydd digwyddiadau mawr yn y dyfodol yn cynnwys cyfnodau clo ac y bydd angen i staff barhau a chynnal dyletswyddau rheolaidd gydol y cyfnod drwy gynyddu capasiti ymchwydd.</p> <p>Efallai y bydd y sector gwirfoddol yn dymuno chwarae rhan y tu hwnt i wasanaethau lles cyffredinol.</p> <p>Mae nifer fawr o bobl, yn enwedig yn lleol, wedi ennill sgiliau diogelu iechyd (er bod llawer o'r rhain yn benodol i Covid).</p> <p>Mae'n rhaid parhau â'r cysylltiadau lleol a chenedlaethol cryfach sydd wedi datblygu fel bod modd cael mynediad hawdd at wybodaeth leol sydd gan wasanaethau lleol ar gyfer ymateb lleol a chenedlaethol.</p> <p>Mae ffyrdd amrywiol o sganio'r gorwel a rhagweld, gan gynnwys modelu epidemiolegol, yn cael eu defnyddio ac mae'n rhaid sicrhau mewnbwn parhaus er mwyn rhagweld peryglon posibl ac ymestyn golwg fwy hirdymor ar draws y sector cyhoeddus.</p>

### Argymhellion manwl

<b>Parodrwydd am argyfwng</b>	<b>Rheolaeth arferol</b>
<p>Cymryd rhan mewn asesiad risg yn y rhyngwyneb anifeiliaid/dynol drwy grwpiau fel Grŵp Heintiau Pobl ac Anifeiliaid a Gwylidwriaeth Risg (HAIRS) y DU fel modd o atal a/neu ymateb yn gyflym i heintiau dynol sy'n dod i'r amlwg.</p>	<p>Parhau a chryfhau cysylltiadau'r pedair gwlad a chysylltiadau rhyngwladol a'r byd academiaidd, er mwyn sganio'r gorwel yn fwy cadarn, rhagweld digwyddiadau argyfwng, a nodi anghenion ar gyfer gwella gwaith rheoli arferol.</p>
<p>Cynnal ymarferion yn rheolaidd gyda senarios amrywiol, gan gwmpasu pob perygl, a chynnwys y sector gwirfoddol a myfyrwyr perthynol i iechyd gyda'r nod o gael gwell parodrwydd, gwydnwch, arbenigedd.</p>	

# Atodiad 1 - Holiadur gwag a anfonwyd at yr holl bartneriaid a rhestr o ymatebwyr

Questionnaire - Independent review of the health protection system in Wales		
Name of organisation:		
Description of your personal role:		
	<b>Your organisation</b>	<b>Other organisations with which you collaborated in this area of work</b>
What roles does your organisation have in the health protection system. How did your role change during the coordinated response to the COVID 19 pandemic? Please label any new roles your organisation took on in response to COVID 19 pandemic as 'NEW' .  Please also indicate the lead organisation for each role.		
Which roles that you listed above are working well? What issues/challenges do you face? Specifically mention the impact of the COVID 19 pandemic in your organisation and in any of the organisations with which you collaborated in this role?		
Which roles did not work well and what difficulties did you encounter during the COVID 19 pandemic?		
What new arrangements did you put in place to maintain resilience of service delivery and/or mitigate the wider impacts on the population in your area?		
What new arrangements have you retained for responding to future epidemics and pandemics?		
Which difficulties were not fully addressed in the COVID 19 response and so need to be reviewed during planning for future epidemics and pandemics or other major incidents?		
What do you need from collaborating organisations to protect your resilience in future epidemics and pandemics or other major incidents?		
We welcome case studies of 100 to 200 words each to illustrate any of the points above.		
Are there any other comments you wish to bring to the attention of the review team?		
Thank you for completing the questionnaire we look forward to discussing with you on 10 or 12 October. Regards David and Sara		
Please return the completed questionnaire to: <a href="mailto:hpag.secretariat@gov.wales">hpag.secretariat@gov.wales</a> by 3 October		

Rhestr o ymatebwyr yr holiadur

Fiona Kinghorn GIG
Keith Reid GIG
Kelechi Nnoaham GIG
Mererid Bowley GIG
Sarah Aitken GIG
Teresa Owen GIG
Simon Wilkinson CLILC
Fu-Meng Khaw ICC
Jonathan Davies ASB Cymru
David Russell UKHSA
Andrew Kibble UKHSA
Jo Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Mark Thomas Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Lynda Anthony Arweinydd Iechyd Cyhoeddus Dinas a Sir Abertawe
Paul Kavanagh-Fields Arweinydd Ymgynghorol ar gyfer gwasanaeth TTP Rhanbarthol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Peter Jones Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru
Jeff Beynon Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd (Diogelu Iechyd a Defnyddwyr), Cyngor Sir Penfro
Catherine M Davies Uwch Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd, ar ran Cyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd.
Jonathan Keen Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd, Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd
Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Huw Brunt Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru
Marion Lyons Uwch Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Gareth Cross, TAG, Llywodraeth Cymru

## Atodiad 2 – Rhestr o'r cyfweiliadau

Cafodd yr ymatebwyr eu gwahodd i nodi a fyddent yn hoffi mynychu cyfweiliad gyda'r adolygwyr. Ymatebodd y canlynol ac felly cawsant eu cyfweild wyneb yn wyneb neu'n rhithiol drwy MS Teams.

<b>Enw</b>	<b>Rôl a sefydliad</b>
Sarah Aitken	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Frank Atherton	Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Nicola Bengé	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Mererid Bowley	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Huw Brunt	Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru
Beverley Cadwallader	Arweinydd Proffesiynol, Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, Cyngor Sir Powys
Tracey Cooper	Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Catherine Davies	Uwch-ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Sir Powys
Gwilym Davies	Pennaeth Cynllunio, Eiddo a Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Powys
Jonathan Davies	Pennaeth Polisi (Safonau) a Diogelu Defnyddwyr, yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Louise Davies	Cyfarwyddwr - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Ceri Edwards	Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerffili
Rob Griffiths	Pennaeth Gweithrediadau Orlhain, Llywodraeth Cymru
Andrew Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ian Jones	Is-gadeirydd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru
Peter Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Rhaglenni Iechyd Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
Dr Sarah Jones	Uwch-gynghorydd Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer Covid 19, Llywodraeth Cymru
Meng Khaw	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio/Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Andrew Kibble	Uwch Reolwyr RCE Cymru Cymegion a Pheryglon Amgylcheddol (Cymru) UKHSA
Fiona Kinghorn	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Liz Lalley	Cyfarwyddwr Dros Dro - Adfer ac Ailgychwyn, Llywodraeth Cymru
Greg Langridge-Thomas	Rheolwr Rhaglen Strategol ar gyfer Profi Orlhain Diogelu, Cyngor Sir Powys
Owen Lewis	Pennaeth Polisi Rheoleiddio a Phartneriaethau Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Sion Lingard	Ymgynghorydd Diogelu Iechyd/Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddi, Iechyd Cyhoeddus Cymru

<b>Enw</b>	<b>Rôl a sefydliad</b>
Marion Lyons	Uwch Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru
Rob Orford	Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd, Llywodraeth Cymru
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sioned Rees	Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd, Llywodraeth Cymru
Keith Reid	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Yr Athro David Russell	Pennaeth Uned RCE Cymru Cemegion a Pheryglon Amgylcheddol (Cymru) UKHSA
Giri Shankar	Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ffion Thomas	Dirprwy Gyfarwyddwr Argyfyngau Sifil a Diogelwch Gwladol, Llywodraeth Cymru
Rhys Thomas	Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Casnewydd a Chadeirydd Panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd yr Amgylchedd Cymru
Catherine Watts	Rheolwr Gwasanaethau ac Arweinydd Clinigol Profi, Orlhain a Diogelu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

### Atodiad 3 – Papurau a dogfennau ysgrifenedig

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i gyflwyno dogfennau i'w hystyried gan yr adolygwyr. Derbyniwyd y dogfennau canlynol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad Gwerthuso Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu Gwent</li> <li>Yr wybodaeth ddiweddaraf am Raglen Cyflawni Celloedd Rhanbarthol (RCDP) (I ddarparu crynodeb byr o brif weithgarwch y Rhaglen Cyflawni Celloedd Rhanbarthol 1 Awst - 19 Medi 2022)</li> </ul>
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymateb Panel Arbenigol Iechyd a Diogelwch Cymru Gyfan - Awdurdodau Lleol Cymru a'r Pandemig Coronafeirws (COVID-19)</li> <li>Gweithdy Awdurdodau Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i lywio trafodaethau lleol</li> <li>Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol</li> <li>Rhaglen Datblygu Gweithlu Diogelu'r Cyhoedd (5 mlynedd)</li> <li>Prentis Swyddog Cydymffurfio Rheoleiddiol Cronfa Datblygu'r Gweithlu</li> </ul>
Iechyd Cyhoeddus Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnig Ymateb COVID-19: Grŵp Cymorth Cydgysylltu Strategol Iechyd Cyhoeddus</li> <li>Agenda - Grŵp Cymorth Cydgysylltu Strategol Iechyd Cyhoeddus 13/11/20</li> <li>Gweithio Gyda'n Gilydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Is-adrannau Diogelu Iechyd Llywodraeth Cymru – Goruchwylio dangosyddion allweddol diogelu iechyd ledled Cymru</li> <li>Cylch Gorchwyl Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU</li> <li>Cylch Gorchwyl Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y DU</li> <li>Rhaglen Waith UKHPC Ebrill 22</li> <li>Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd - Rhaglen Waith</li> <li>Grŵp Goruchwylio Diogelu Iechyd y Pedair Gwlad, Is-grŵp y Gweithlu Diogelu Iechyd - Cylch Gorchwyl</li> <li>Pennod o Lyfr - What is the Health Protection Function? (wedi'i rannu'n gyfrinachol)</li> <li>Adolygiad Annibynnol o Ddiogelu Iechyd a Gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Crynodeb o sylwadau gan Fforwm CCDC</li> </ul>
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fforwm Diogelu Iechyd Bae Abertawe - Cylch Gorchwyl</li> </ul>
Cemegau a Pheryglon Amgylcheddol (Cymru) UKHSA	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaglen Goruchwyliaeth Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd a'r Hinsawdd - Cynllun Strategol 2021 i 2026</li> </ul>
Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pwyso a mesur trefniadau a'r gallu i reoli digwyddiadau amgylcheddol yng Nghymru gyda ffocws ar ddiogelu iechyd</li> <li>Adolygiad Amlinellol o System Diogelu Iechyd (PID V2)</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp Gorchwyl a Gorffen 2: Atebion digidol ar gyfer olrhain cysylltiadau ac adleoli gweithlu TTP medrus</li> <li>• MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH (RHAN 1), Trosglwyddo Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol (gan Robin Jones)</li> <li>• Dogfen TAG ynghylch y pum nam sy'n codi o Covid grŵp-cyngor-technegol-5-niwed-syn-codi-o-covid-19_0.pdf (llyw.cymru)</li> <li>• Cynlluniau rheoli a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig <a href="#">Cynlluniau i reoli coronafeirws   LLYW.CYMRU</a></li> <li>• Strwythur Cyngori HPAG</li> <li>• Grŵp Deallusrwydd COVID (CIG) - Cylch Gorchwyl</li> <li>• Grŵp Deallusrwydd Clefydau Trosglwyddadwy (CDIG) - Cylch Gorchwyl</li> </ul>
--	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------



## **Atodiad 4 – Bywgraffiadau'r tîm adolygu**

### **David Heymann**

Mae David Heymann yn epidemiolegydd meddygol ac yn Athro Epidemioleg Clefydau Heintus yn Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain. Rhwng 2009 a 2017 bu'n gadeirydd Asiantaeth Diogelu Iechyd y DU ac yna Public Health England, ac yn ystod y cyfnod hwn bu hefyd yn arwain y Ganolfan ar Ddiogelwch Iechyd Byd-eang yn Chatham House (Llundain). Rhwng 1989 a 2009, cafodd Heymann amryw o swyddi arwain yn y maes clefydau heintus yn Sefydliad Iechyd y Byd, ac yn 2003 bu'n arwain ymateb byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd i SARS yn ei rôl fel cyfarwyddwr gweithredol clefydau trosglwyddadwy. Ym 1976, ar ôl treulio dwy flynedd yn gweithio yn India ar ddileu'r frech wen, roedd Heymann yn aelod o dîm Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (Atlanta) yn ymchwilio i'r achosion cyntaf o Ebola yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo ac arhosodd yn Affrica Is-Sahara am 13 mlynedd mewn gwahanol swyddi ymchwil maes ar Ebola, brech y mwncïod, Clwy Lassa, malaria a chlefydau trofannol eraill. Mae Heymann wedi cyhoeddi 275 a mwy o erthyglau a phenodau o lyfrau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, mae'n olygydd y Control of Communicable Diseases Manual, ac mae'n aelod etholedig o Academi Gwyddorau Meddygol y DU ac Academi Feddygaeth Genedlaethol yr Unol Daleithiau. Yn 2009 cafodd ei enwi'n Gadlywydd Anrhydeddus Urdd Ardderchocaf yr Ymerodraeth Brydeinig am wasanaethau i iechyd byd-eang.

### **Sara Hayes**

Cafodd Sara Hayes achrediad mewn Ymarfer Cyffredinol ac yn y 1990au gweithiodd yng Nghaerdydd i helpu i sefydlu gwasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer y gymuned Somali'aidd gynyddol a rhaglen groeso'r GIG i blant sy'n ffoaduriaid, gan wneud defnydd o eiriolwyr iechyd i bontio bylchau iaith a diwylliant. Dechreuodd hyfforddiant iechyd cyhoeddus ffurfiol ym 1994 a bu'n Ymgynghorydd ym maes Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Pennaeth Cynllunio rhag Argyfyngau i Iechyd Morgannwg cyn symud i Lywodraeth Cymru fel Uwch Swyddog Meddygol Diogelu Iechyd. Roedd yn y swydd hon yn ystod y pandemig ffliw moch, lle cyfrannodd at gynllunio ymatebion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a bu'n allweddol wrth sefydlu dosbarthu meddyginiaeth wrthfeirysol yn y gymuned drwy wasanaethau lleol a oedd yn bodoli eisoes. Bu'n Ddirprwy Brif Swyddog Meddygol Dros Dro rhwng Medi 2011 ac Ionawr 2012. Yn 2012, daeth yn Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, gan gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar yr heriau iechyd cyhoeddus i'r boblogaeth leol. Bu'n arwain ymateb y Bwrdd Iechyd i achosion o'r frech goch, gan arwain y gwaith o sefydlu clinigau MMR mynediad agored mewn ysbytai lleol ar benwythnosau, a chynyddu'r nifer a oedd yn cael MMR drwy ofal sylfaenol. Fe'i penodwyd gan y Gweinidog Iechyd i gadeirio Grŵp Clefyd yr Afu Llywodraeth Cymru. Ymddeolodd yn 2017 ond dychwelodd ym mis Ebrill 2020 i gefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i Covid, gan aros tan fis Mehefin 2021. Yn dilyn hynny, cafodd ei phenodi'n Gyd-gadeirydd Comisiwn Annibynnol Defnyddio Sylweddau Bae'r Gorllewin sy'n edrych ar farwolaethau'n ymwneud â chyffuriau. Mae wedi cyhoeddi nifer o bapurau, adroddiadau ac erthyglau wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, gan gynnwys fel prif awdur Cochrane ar adolygiad systematig cyhoeddedig.